

Cofnodion cyfarfod y **Pwyllgor Cynllunio a Datblygu** a gynhaliwyd yn  
**Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, Rhuthun, nos Lun, 8 Ebrill 2019 am 8:15p.m.**

**PRESENNOL:** Y Cyngorwyr Stephen Beach, Ken Hawkins, Gavin Harris, John Wynne Hughes, Robert Owen-Ellis, Heather Williams ac Ifan Wyn.

**73. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB**

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cyngorwyr Ian Lewney a Jabez Oakes. Yn sgîl absenoldeb y Cadeirydd, enwebwyd y Cyngorydd Heather Williams i gadeirio'r cyfarfod.

**74. DATGAN BUDDIANNAU**

Ni chafwyd unrhyw ddatganiad o fuddiant.

**75. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL**

Cadarnhawyd bod cofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 11 Mawrth 2019 yn gywir.

**76. MATERION YN CODI**

Nid oedd unrhyw faterion yn codi.

**77. PENDERFYNIADAU CYNLLUNIO**

Adroddodd y Clerc y derbyniwyd y penderfyniad cynllunio a ganlyn gan Gyngor Sir Ddinbych:  
**02/2019/0155 – Clwydfryn, Stryd y Prior, Rhuthun** - Gosod cyflenwad nwy prif gyflenwad a bwyler nwy gyda ffliw cydbwysu – Caniatwyd

**02/2019/0094 – 29 Llawr y Dyffryn, Rhuthun** - Adeiladu estyniad llawr cyntaf dros y garej sy'n bodoli eisoes – Caniatwyd

**02/2019/0031 – 36 Bro Deg, Rhuthun** - Adeiladu estyniad llawr cyntaf i'r annedd sy'n bodoli eisoes – Caniatwyd

02/2019/0052 – Fron Haul, Llanfwrog, Rhuthun – Manylion gwaith dymchwel, y cynllun goleuo a goleuo allan a'r ddarpariaeth ar gyfer gwenoliaid sy'n nythu, a gyflwynwyd yn unol ag amodau rhif 4, 6 ac 8 caniatâd cynllunio 02/2018/0942 – Cymeradwywyd

**02/2018/1194 – Duinrell, 73A Erw Goch, Rhuthun** - Adeiladu estyniad i flaen yr annedd – Caniatwyd

**02/2019/0069 – Priory House, 9 Sgwâr Sant Pedr, Rhuthun** - Newid defnydd o siop fanwerthu i siop goffi - Caniatwyd

**02/2019/0196 – Clywedog, 28 Ty'n y Parc, Rhuthun** - Adeiladu estyniad ac addasiadau i'r annedd - Caniatwyd

02/2019/0119 – Bryn Tawel, Ffordd Llanfair, Rhuthun – Adeiladu estyniadau ac addasiadau i'r annedd – Caniatwyd

**78. CEISIADAU CYNLLUNIO**

Ystyriodd y Pwyllgor y ceisiadau a ganlyn a gyflwynwyd am sylwadau gan Gyngor Sir Ddinbych.

**PENDERFYNWYD:** *nad oedd unrhyw wrthwynebiad i'r ceisiadau cynllunio a ganlyn, yn ddarostyngedig i'r sylwadau isod.*

02/2019/0238 – 5 Llys y Castell, Rhuthun

Adeiladau estyniadau i'r annedd yn cynnwys rampiau mynediad.

02/2019/0257 – Tir yn 46 Parc y Castell, Rhuthun

Adeiladu un annedd yn cynnwys llunio mynedfa newydd i gerbydau.

02/2019/0219 – Bronwylfa, 8A Stryd y Farchnad, Rhuthun

Newid defnydd siop flaenorol (Dosbarth A1) yn Stiwdio Ioga (Dosbarth D2).

02/2019/0220 - Bronwylfa, 8A Stryd y Farchnad, Rhuthun

Arddangos arwyddion hysbysebu.

*Sylwadau – gofynnir yn garedig i'r ymgeisydd ystyried cael arwyddion dwyieithog, ac awgrymir bod yr arwyddion hir yr un hyd â'r ffenestri ar yr ochrau, fel nad ydynt yn anghyfrannol.*

**PENDERFYNWYD:** *bod gwrthwynebiad i'r cais isod:*

**02/2019/0183 – Tir y tu ôl i Tŷ Cefn, Llanfwrog, Rhuthun**

Manylion tirlunio, cynllun gosod a graddfa 2 annedd a gyflwynwyd yn unol ag amod 1 caniatâd cynllunio amlinellol 02/2018/0445.

*Mae'r anheddau arfaethedig yn parhau i fod yn rhy fawr o ran maint a más, ac yn cynrychioli gorddatblygu'r safle. Maent yn agos at ei gilydd ac at ffiniau'r safle.*

**79. YMGYNGHORIAD CYNLLUNIO CYN CYFLWYNO CAIS**

Hysbyswyd yr aelodau am ymgynghoriad cynllunio cyn cyflwyno cais gan Macbryde Homes ynghylch y cynnig i adeiladu 69 annedd fforddiadwy a gwagle agored cysylltiedig, mynedfa, draeniad a seilwaith ar dir oddi ar Llys Famau, Rhuthun. Roedd yr ymgynghoriad wedi dechrau'r diwrnod hwnnw, am gyfnod o 28 diwrnod. Dywedodd aelodau y gobeithir trefnu cyfarfod cyhoeddus yn y cyffiniau fel bod pobl yn cael cyfle i weld y cynigion arfaethedig a thrafod unrhyw bryderon gyda chynrychiolwyr y datblygwr.

**PENDERFYNWYD:** *ymateb i fynegi pryderon ynghylch nifer yr unedau/dwysedd y datblygiad arfaethedig, y fynedfa arfaethedig a'r effaith potensial ar y seilwaith a'r cyfleusterau lleol.*

**80. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF**

**PENDERFYNWYD:** *mai dyddiad y cyfarfod nesaf fydd nos Fawrth, 7 Mai 2019 am 8:00pm.*